Llafur

Cymdeithas Hanes Pobl Cymru

The Welsh People's History Society

Cylchlythyrau

Gaeaf/Gwanwyn 2010

Adroddiad Y Cadeirydd

Martin Wright

Mae'n anrhydedd ysgrifennu fy adroddiad cyntaf fel Cadeirydd Llafur, ar ôl cael fy ethol i'r safle yn ein Cyfarfod Blynyddol ym Mis Tachwedd diwethaf. Fy nghorchwil cyntaf yw mynegi ein diolchgarwch i'n cyn-gadeirydd, Alun Burge, am ei waith diflino ar ran y Gymdeithas dros tair degawd. Ymunodd Alun â Phwyllgor Llafur fel Ysgrifennydd Cynorthwyol ym 1976, ac mae wedi gweithredu fel cadeirydd ers [?]. Mae wedi llywio'r pwyllgor yn fedrus a chyda digrifwch trwy 'amserau diddorol'. Dymuniadau da iddo yn ei swydd yn Llywodraeth y Cynulliad. Disgwyliwn yn eiddgar, wrth gwrs, ei gyfraniad parhaol i waith Llafur fel aelod y gymdeithas.

Mae diwedd 2009 a misoedd cynnar 2010 wedi bod yn amser trist iawn. Ysbeiliodd marwolaeth anamserol Nina Fishman, ym Mis Rhagfyr, ein maes o gyfrannwr brwdfrydig a disglair. Bu colled anferth ag echryslon arall, pan fu farw Duncan Tanner yn sydyn ym Mis Chwefror. Roedd yn ergyd drwm i'n cymuned i ddioddef dau golled fel hyn mor agos i'w gilydd, a dyfnhawyd tristwch y tymor pan fu farw Michael Foot, un o gewri go iawn y mudiad llafur, ym Mis Mawrth. Ar ran y Gymdeithas, dymunwn estyn ein cydymdeimladau dwfn i deuluoedd a chyfeillion ein cydweithwyr ymadawedig. Bydd eu gwaith yn parhau yn gofadail i dri cydweithiwr yn y winllan.

Yn hapusach, roedd yn bleser mynychu'n Cyfarfod Blynyddol, yn Y Senedd, Bae Caerdydd, Mis Tachwedd diwethaf. Anerchwyd y cyfarfod llawn hwn gan nifer o siaradwyr nodedig. Trafododd Yr Athro Syr Deian Hopkin, Yr Athro K.O. Morgan, Christine Chapman A.C. a'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas rhai o 'gerrig milltir democratiaeth Cymru o Siartiaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol'. Mae'r ffaith y gall detholiad o siaradwyr mor enwog cael eu denu i annerch ein Cyfarfod Blynyddol yn dystiolaeth i'r safle dylanwadol y mae'r Gymdeithas wedi cyrraedd yn ein bywyd cenedlaethol. Yn wir, mae rhai aelodau wedi dyfalu ein bod ni'n dod yn rhan o'r sefydliad, ac efallai yn tipyn bach rhy barchus! Bydd yn her yn y dyfodol, efallai, i sicrhau nad yw hwn yn hollol wir. Bydd yn rhaid i ni anelu yn bennaf at gynnal y radd fwyaf posib o ddylanwad heb golli ein llais annibynnol a radical. Bydd hwn yn rhaff-gerdd diddorol.

Yn yr ysbryd hwn, edrychwn ymlaen at flwyddyn prysur a llawn digwyddiad o'n blaen. Ym Mis Mehefin, byddwn yn dathlu pen-blwydd 90ain un o'n sylfaenwyr, Ieuan Gwynedd Jones, ar y cyd â Chymdeithas Hanes Ceredigion yn Aberystwyth. Ym Mis Gorffennaf, byddwn yn trefnu digwyddiad ar y cyd â'r Gymdeithas Gydweithredol yng Nghwmdâr, ac ym Mis Medi byddwn yn trefnu ysgol undydd ym Mangor ar sosialaeth yng Nghymru. Yn olaf, bydd ein Cyfarfod Blynyddol, ym Mis Hydref, yn darparu cyfle i gydnabod canmlwyddiant terfysgoedd Tonypandy. Ar yr un pryd byddwn yn parhau gwaith pob dydd y Gymdeithas. Un elfen o hwn yw cyfrannu at ddatblygiad 'Casgliad y Bobl' CyMAL. Mae'r prosiect cyffrous ac uchelgeisiol hwn yn datblygu yn gyflym, ac yn ystod y flwyddyn sy'n dod byddwn yn sicrhau y bydd achos Llafur yn cael ei gynrychioli ar y pwyllgor llywio.

Yn symud at ein pen-blwydd yn 40ain, gallwn fyfyrio bod ein hamgylchedd wedi newid yn ddramatig ers dyddiau cynnar Llafur. Mae'r sylfaen economaidd a chymdeithasol a fagodd mudiad llafur Cymru wedi newid y tu hwnt i'n cydnabyddiaeth. Mae llawer agwedd o fywyd a fu unwaith yn sicr – megis mudiad undebau llafur cryf – wedi eu herydu yn llym. Bu'n rhaid i ni gydnabod yn aml nad yw hanes ar ein hochr ni pob tro. Wrth gwrs, nid yw pob newid yn negyddol. Cyniga cyrhaeddiad datganoli, er enghraifft, amgylchedd wleidyddol newydd a chyffrous. Mae'r newidiadau hyn i gyd yn dylanwadu'r ffordd yr ystyriwn ac a ysgrifennwn ar hanes. Mae'n ystyriaeth ddifrifol, efallai, bod Cymdeithas Hanes Pobl Cymru yn ei blentyndod o hyd. Yn y dyfodol bydd yn rhaid i ni barhau annog datblygiad hanes pobl Cymru, gan gynnal egwyddorion canolog gwreiddiol y Gymdeithas ar yr un pryd. Tra tyfir hanes pobl Cymru, bydd ein hamcan i dyfu gyda fe.

Newyddion y Gymdeithas

Yn ystod y blwyddyn diwethaf bu'n bosib i aelodau Llafur mwynhau ac ymgymryd mewn nifer o ddigwyddiadau hynod gwerth-chweil a phryfoclyd a chafodd eu gynnal, rydym yn hapus i'w ddweud, mewn amryw leoliad wahanol. Cychwynodd y flwyddyn drwy asesu cyflawniadau y Siartwyr yn Llanidloes, drwy ddathlu gwleidyddiaeth ymarferol Ursula Masson yn Abertawe yn mis Medi, a gorffenwyd y flwyddyn drwy adlewyrchu ar stad democratiaeth yng Nghymru yn y gorffennol a'r presennol yn amgylchoedd addas y Senedd. Ym mhob digwyddiad parhaodd y siaradwyr ac aelodau'r gynulleidfa gyda traddodiad Llafur o gwestiynu, chwilio a gwthio yn eu blaen hanes Cymru. Mae creu cysylltiadau gyda'r gorffennol ac edrych i'r dyfodol yn parhau i fod yn angenrheidiol. Eleni rydym yn gobeithio gwneud yr un peth gyda rhaglen arall yn orlawn gyda digwyddiadau a siaradwyr nodedig.

Bydd ysgol dydd cyntaf y flwyddyn yn cael i'w chynnal ar **Dydd Sadwrn 19 Mehefin yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru**. Mae'r digwyddiad ar y cyd yma yn cael i'w gynnal mewn cysylltiad a Cymdeithas Hanesyddol Ceredigion ac fe'i drefnwyd i ddathlu penbwlydd yn 90 oed a gwaith Ieuan Gwynedd Jones.

Ar Ddydd Sadwrn 3 Gorffennaf rydym yn trefnu ysgol dydd ar y Mudiad Cydweithredol yng Nghymru. Bydd hyn yn cael i'w chynnal yng Nghlwb y Glowyr, Cwmdâr.

Yn yr hydref byddwn yn teithio i Fangor er mwyn sicrhau bod ein rhaglen digwyddiadau yn parhau i gyrraedd ein aelodau ar draws Cymru. **Ar yr achlysur yma byddwn yn archwilio gwaith sosialyddion Cymraeg eu hiaith mewn diwgyddiad ym Mhrifysgol Bangor ar Ddydd Sadwrn 11 Medi.**

Yn edrych ymhellach ymlaen, **bydd ein CCB yn cael i'w chynnal eleni ar Ddydd Sadwrn 30 Hydref yng Ngholeg Morgannwg, Llwynypia.** Mae 2010 yn nodi canmwlyddiant Terfysg Tonypandy a bydd ein ysgol dydd yn adlewyrchu ar ysgolheictod y gorffenol ac yn dadlau dehongliadau mwy cyfoes o digwyddiadau'r flwyddyn yna.

Yn ogystal a'r ysgolion dydd uchod, bydd Llafur yn cefnogi dau cynhadledd bwysig. **Mae'r gyntaf yn cynhadledd a drefnwyd gan Ganolfan Cymru Modern a Cyfoes ym Mhrifysgol Morgannwg ar 'Cold War Wales: Politics, Peace and Culture'. Bydd y cynhadledd yma yn cael i'w chynnal ar Ddydd Sadwrn 26 Mehefin 2010**. Am fanylion pellach cysylltwch naill a'i gyda Dr Norry LaPorte (nlaporte@glam.ac.uk) neu gyda Dr Fiona Reid (freid1@glam.ac.uk).

Mae eleni yn nodi 25 mlynedd ers cyhoeddi When Was Wales? gan Gwyn Alf Williams. Ar **18 Medi** bwriedir cynnal ysgol dydd i ystyried effaith gwaith Gwyn Alf Williams a'i gymynrodd. Bydd yr ysgol dydd yn cael i'w chynnal yng Nghaerdydd, a bydd manylion yn cael i'w ddosbarthu i aelodau.

Bydd gan aelodau Llafur diddordeb hefyd i glywed am cynhadledd Rhwydwaith Hanes Menywod Gorllewin Lloegr a De Cymru ar **'Women as producers and consumers in history'**. Bydd y cynhadledd yma yn cael i'w chynnal yn Ngholeg Sarum, Salisbury ar 10 Gorffennaf 2010.

Roedd nifer o aelodau'r Rhwydwaith Hanes Menywod, Archif Menywod Cymru a Llafur yn bresennol yn yr ail Darlith Coffa Ursula Masson a chafodd ei gynnal ar Diwrnod Rhyngwladol Menywod ar 8 Mawrth 2010 ym Mhrifysgol Morgannwg. Bu'r digwyddiad hefyd yn achlysur i lansio llyfr Ursula Masson, For Women, For Wales and For Liberalism: Women in Liberal Politics in Wales 1880-1914 (UWP, 2010). Dechreuodd y noson gydag araith dwys ond llawn hiwmor gan chwaer Ursula a mynychodd ei atgofion personol hi am Ursula a'i waith.



Roedd Helen Molyneux eisiau diolch yn arbenning i Jane Aaron, June Hannam a Sian Rhiannon Williams am eu gwaith yn cyhoeddi ei ysgrif Traddodwyd y darlith eleni gan Yr Athro June Hannam o Brifysgol Gorllewin Lloegr a siaradodd ar 'Writing to History: Autobiographies of the First Labour Women Mps'. Cafwyd papur hynod ddiddorol gan June yn dilyn sut wnaeth y grwp cyntaf o ASau Llafur benywaidd olrhain hanes eu hunain drwy hunangofiant. Yn ei araith goleuol creuodd cysylltiadau cyfoes gyda safle menywod gwleidyddol yn y lygad cyhoeddus. Cymorthwyodd Sian Rhiannon Williams gyda lansio llyfr Ursula, For Women, For Wales and For Liberalism, drwy drafo ei gyfraniad bwysig i hane Cymru a menywod gwleidyddol. Mynychodd lawer y digwyddiad, gyda copiau o lyfr Ursula yn gwerthu allan yn sydyn. Bydd darlith blwyddyn nesaf yn cael i'w thraddodi gan Yr Athro Angela V John.

Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yn ein diwgyddiadau eleni. Am fanylion pellach edrychwch ar ein gwefan neu cysylltwch gyda Sian Williams (s.f.williams@swansea.ac.uk).

DIGWYDDIADAU DIWEDDAR LLAFUR

Matthew Eggerton

Revisiting Chartism in Wales
Dydd Sadwrn 16eg Mai 2009

Canolfan Gymunedol Llanidloes

By Her Majesty's Command,
£100 REWARD
One Hundred POUNDS
FIFTY POUNDS

Bron i 170 mlynedd yn union ers y chwalfa a wynebodd Llanidloes gan y terfysgwyr Siartaidd, goresgynwyd y dref unwaith eto gan meddylwyr gwleidyddol ar ffurf ysgol dydd Llafur. Er nid cyn filwraethus a derfysgwyr 1839, cafwyd presenoldeb dda er gwaetha'r tywydd ofnadwy. Traddodwyd tri papur gwych yn amrywio mewn cynnwys o arolwg bras o Siartiaeth yng Nghymru i achosion penodol Merthur Tudful a Llanidloes.

Wedi cyfarchiad gan Neil Evans, pan soniodd am ymdrechion Llafur i ddathlu adegau pwysig yn nemocratiaeth, galwodd Anglea John ar Malcolm Chase i gyflwyno'r papur cyntaf. Teithiodd Malcolm yr holl ffordd o Leeds ar gyfer y digwyddiad ac roedd yn bendant werth y daith gan fod ei waith ddiweddar yn caniatau iddo roi adroddiad pryfoclyd o'r safbwynt Cymraeg dan y teitl *'Rethinking Welsh Chartism'*. Yn ei bapur ystyriodd effaith terfysg Casnewydd ar ddehongliadau haneswyr o Siartwyr Cymraeg a ddadlodd taw 'rich, multifaceted, innovative movement' oedd ganddynt sy'n haeddu astudiaeth pellach. Aeth ymlaen i ystyried y rhwystrau i llwyddiant Siartiaeth yng Nghymru wedi Casnewydd, a oedd yn ffynni o elfennau daearyddol a ieithyddol, ac yn y pendraw wnaeth arwain at ddiffyg ymrwymiad gan Siartwyr Cymraeg yn y cynlluniau ar gyfer gwrthryfel ym 1848. Daeth Malcolm i derfyn drwy labelu Siartiaeth fel '*the noblest sentiment of the 19th century*', barn a adleisiwyd yn y trafodaeth a ddilynodd ei bapur pan ailystyriwyd 6 pwynt y Siartr gyda chryn ddiddordeb gan yr ymgynulliad.

Daeth ail bapur y diwrnod a bersbectif mwy lleol wrth i Owen Ashton canolbwyntio ar ran Llanidloes yn hanes y 19eg ganrif yn ei bapur, '*Chartism in Llanidloes: the 'Riot' of 1839 Revisited*'. Yn ei drafodaeth, adolygodd Owen y ffordd yr ail-ddehonglwyd terfysg Llanidloes gan haneswyr bron yn ddi-drem ers y digwyddiad; o safbwyntiau digydymdeimlad a ddiystyriol gweinidogion Calfinaidd, i waith ddiweddar Malcolm Chase a cydnabyddodd Owen daeth a bersbectif newydd i Llanidloes a danseiliodd ei phwysigrwydd i Siartiaeth yng Nghymru. Wedi arolwg sydyn o diwgyddiadau'r terfysg ym 1839 daeth Owen i ddiweddglo ei bapur trwy ceisio olrhain bywydau y tri terfysgwr a llwyddodd i osgoi cael eu ddal. Yn ystod ei bapur a trwy'r diwrnod talwyd teyrnged a cydnabyddiaeth i'r waith arloesol ar Siartiaeth yng Nghymru gan yr hen a golledig haneswr ac aelod o Llafur, David Jones.

Wedi ymdrech gwrol gan bawb i chwilota Llanidloes am ymborth angenrheidiol yn ystod y toriad cinio a pori drwy'r stondinau llyfrau a gaed ym mhrif neuadd, tebyg i Gaderlain, y Ganolfan Gymunedol, ail-gasgliodd y gynulleidfa ar gyfer papur terfynol y diwrnod. Ym mhapur Joe England, '*Engaged in a Righteous Cause': Chartists in Merthyr Tydfil*', cafwyd golwg ar ran Siartiaeth yn Merthur Tudful ar adeg pan roedd yna dueddiad i edrych ar derfysg Casnewydd yn unig. Ystyriodd Joe yn arbennig y resymau pam ni arweiniodd teimladau Siartaidd a oedd eisioes yn bodoli ym Merthur at derfysg treisgar. Beiodd y ffaith yma yn sgwar ar amryw ffactor, gan gynnwys presenoldeb agos y perchenogion gweithiau dur ym Merthur o fewn y tref a wnaeth atal teimladau Siartaidd cryfach, yn wahanol i awdurdod absennol, a felly pell perchenogion y cloddfeydd yng Nghasnewydd. Dilynwyd y papur gyda trafodaeth bywiog pan ystyriodd aelodau'r gynulleidfa y ffactorau yma ac eraill.

Yna, daeth y diwrnod i derfyn gyda geiriau i gloi gan Neil, a adlewyrchodd ar y papurau ac ar gynnal digwyddiad Llafur y tu allan i de Cymru. Rhoddwyd ddiolch i bawb a fynychodd a rhoddodd cymorth gyda'r diwrnod, ynghŷd ag i'r siaradwyr am eu gyfraniadau ardderchog.

Gweithred olaf y diwrnod oedd i efelychu terfysgwyr Llanidloes drwy anelu am ganolbwynt y dref - yn ein achos ni, nid y Trewythen Arms Hotel ond y tafarn gorau nesaf gallwn ddod o hud iddo.

Cofio Ursula Masson
Medi 2009
Prifysgol Abertawe

Ym mis Medi y llynedd, daeth Llafur ac Archif Menywod Cymru at ein gilydd i ddathlu bywyd Ursula Masson. Bu'r ysgol dydd yn ffordd ardderchog o fwrw golwg ar yr effaith cafwyd gan waith Ursula a'i ysbryd anorchfygol. Ar ddiwrnod emosiynol iawn cafwyd teyrngedau i Ursula y gweithredydd, gwneuthurydd ffilmiau, trefnydd, athro a hanesydd gan aelodau ddau sefydliad lle chwaraewyd ran mor allweddol ganddi. Gan ystyried ei fod hi'n 25 mlynedd ers Streic y Glowyr 1984/85, rhoddwyd amlygrwydd arbennig i ddigwyddiadau'r flwyddyn yma ac i rhan Ursula yn cofnodi hanes menywod a streic.

Traddodwyd papur agoriadol y diwrnod gan Sian James, AS Dwyrain Abertawe. Cafwyd gan Sian golwg bywiog ar ei phrofiad hi ei hunan o Streic y Glowyr 1984/85 ac yn arbennig y canlyniadau parhaol cafodd ar ei bywyd. Siaradodd Sian mewn manyldeb ar sut y welodd hi y frwydr fel un dros amddiffyn cymunedau glofaol yn hytrach na' frwydr dros arian neu swyddi. Gwaneth ei phrofiadau hi o'r streic, ac yn fwy penodol ei phrofiadau o sut ei ddehonglwyd yn y cyfryngau (a ddaeth yn ymwelwyr reolaidd!), ei arwain hi ag eraill i siarad tu allan i'w chymunedau, ar llwyfannau nis ddychmygwyd cynt. Yn hwyrach, datgelodd taw ei phrofiadau hi a menywod eraill o lenwi lle dynion ar y linell biced a ychwanegodd yn fawr at ei gwleidyddoli hi eu hun. I Sian, roedd hyn yn ddechrau broses a welodd hi'n dod yn y diwedd yn AS.

Ychwanegwyd yn berffaith at bapur Sian gyda'r ddangosiad dilynol o *Smiling and Splendid Women* yn olrhain rhan menywod, gan gynnwys Sian, yn streic y glowyr.

Y cyntaf o dair ffilm a greuwyd gan Grŵp Hanes Menywod Abertawe, ac a ddangoswyd fel rhan o raglen y dydd, oedd *Smiling and Splendid Women*. Ursula oedd y sbardyn tu ol i sefydliad Grwp Hanes Menywod Abertawe ac ymhlith yr aelodau eraill oedd Jen Wilson a Gail Allen. Amlinellodd Jen a Gail sut wnaeth Ursula, trwy eu annog yn ysgafn ac yn bositif, eu caniatau i ymchwilio, ffilmio a chynhyrchu beth oedd mewn lawer ffyrdd yn ddarnau arloesol. Roedd *Swansea Conchie Controversy* a *Back of the Front Line* yn dadlennol o benodau o fewn hanes menywod Cymru ni wyddwyd lawer amdanynt. Mewn cyferbyniad, cofnodiodd *Smiling and Splendid Women* profiadau menywod a cafodd ei radicaleiddio yn ystod chwalfa streic 1984/85.

Cyn dorri am ginio cymerodd Neil Evans a Deidre Beddoe y cyfle i ychwanegu eu hatgofion personol eu hunain am Ursula. Cymerodd y ddau at thema'r diwrnod trwy ganolbwyntio ar ddathlu cyraeddiadau Ursula yn enwedig ei waith ar menywod gwleidyddol Cymraeg. Un ardal o bywyd Ursula a ddatgelwyd oedd ei cysylltiadau hir-dymor gydag Awstralia wedi iddi symud yna i ddechrau bywyd fel newyddiadurydd – byd o wahaniaeth o Gaerdydd! Ond ar y cyfan roedd y ddau siaradwr yn awchus i mynegi eu cariad a parch at Ursula a'i waith yn 'giving women back their history'.

Wedi cinio hyfryd tu allan yn yr heulwen braf cawsom y bleser o ddangosiad ffilm ola'r diwrnod. Dilynwyd hyn gan Yr Athro Jane Aaron, a danseiliodd waith Ursula Masson a datgelodd sut beth yr oedd i weithio gyda hi ym Mhrifysgol Morgannwg. Siaradodd Jane nid yn unig am ymroddiad Ursula i'w waith ac i'r ffynhonellau sylfaenol roedd yn ei caru gymaint, ond hefyd am ei cyraeddiadau yn sefydlu Canolfan Astudiaethau Rhywedd i Gymru ym Mhrifysgol Morgannwg a'r etifeddiaeth hirhoedlog ar gyfer hanes menywod a greuwyd yn ei sgil.

Daeth Neil a'r diwrnod i derfyn gan ddiolch i bawb a wnaeth helpu i drefnu ac a ymddangosodd yn yr ysgol ddydd, ond cadwodd diolch arbenning i Ursula a'i waith.

Cerrigfilltir yn Nemocratiaeth Cymraeg

8 Tachwedd 2009

Y Senedd, Bae Caerdydd

Wedi dechrau tymor Llafur yn Llanidloes wlyb yn cofio terfysgwyr 1839, gorffenwyd y flwyddyn yn addas gyda ymchwiliad pellach i ddemocratiaeth Cymraeg, ond y tro yma yng Nghaerdydd siriol a heulog. Byddai'r diwrnod yn weld ychwanegiadau ysbrydoliedig gan nifer o siaradwyr clodwiw a fe'i orffenwyd gyda trafodaeth bywiog am ddyfodol y sefyldiad lle treuliasom oll y diwrnod, sef Y Senedd.

Er i ran fwyaf o'r gwestai cyrraedd wedi cinio dechreuodd y diwrnod i'r 'ymroddedig' gyda Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas lle welwyd etholiad Martin Wright fel Cadeirydd newydd y pwyllgor ac aelodau eraill. Ond heb os nac oni bai daethpwyd a'r cyfarfod i ganlyniad sydyn mewn disgwlyiad o bapurau'r prynhawn.

Ein cadeirydd am y diwrnod oedd Yr Athro Syr Deian Hopkin a groesawodd ni mewn arddull cyfareddol i'r Senedd cyn cyflwyno'r papur cyntaf gan Yr Athro Arglwydd Kenneth O. Morgan. Siaradodd Yr Arglwydd Morgan ar hyd am ddatblygiad democratiaeth yng Nghymru gan ddechrau gyda Siartiaeth a dibennu gydag amcanion ynglŷn â datganoli a'i ddyfodol. I sawl fel fi, sy'n dal i mynd i afael ar hanes gwleidyddol cyfoes Cymru, ynghŷd â'r rhai gyda ddealltwriaeth dyfnach, roedd papur Yr Arglwydd Morgan yn oleuol ac yn ddifyr y ddau. Cymerodd Yr Arglwydd Morgan ysgub lled ar draws y pwnc, yn awgrymu bod syniadau Siartiaeth yn parhau mewn ryw ffurf fel rhan o'r feddylfryd gwleidyddol Cymraeg ac yn enwedig, fe awgrymodd, drwy'r wasg cyfrwng Cymraeg. Dadleuodd fod y syniadau yma yn gyfyng yn eu cynnydd tan i ddynion megis David Lloyd George defnyddio eu ddelweddau poblogaidd i'w yrru ymlaen. Ar y pwynt yma roeddwn wedi fy synnu i ddysgu fod Lloyd George, un o ffigyrau mwyaf adnabyddus democratiaeth Cymraeg, wedi enwi ei arwyr fel Napoleon, Roosevelt, Hitler a Lincoln – ni fedraf ond peidio a synnu ar y pwynt yma ar sut fath o beth byddai parti swper yn cynnwys y pump yma!

Mapiodd Yr Argwlydd Morgan tirlin wleidyddol yr ugeinfed ganrif gan ei ddisgrifio fel y dosbarth gweithiol yn drefnu eu hunain trwy ddemocratiaeth lleol. Arweiniodd at ddatblygiad y Blaid Lafur a'i 'great change' wedi 1945 gyda genedigaeth Gwladwriaeth Lês Bevan. Er i ran hwyrach ei bapur ganolbwyntio ar ddylanwad Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr ar ddemocratiaeth Cymraeg, bu i'r Arglwydd Morgan hefyd ystyried y dyfodol ar gyfer Cymru datganoliedig. Mewn gwirionedd, roedd yn frwd i cyfeirio i'w gred nad ydi datganoli yn meddwl democratiaeth i Gymru. Daeth i'r casgliad bod raid i Gymru derbyn pwerau mwy i ddeddfu os ydyw'n mynd i allu ddal grym democrataidd mewn modd ddefnyddiol.

Daeth ail annerchiad y diwrnod gan Christine Chapman, AC Cwm Cynon, dan y teitl 'Women and Democratic Change in Wales from the Suffragettes to Devolution'. Roedd papur Christine yn nodi 80

mlynedd ers i pob fenyw derbyn y bleidiais am y tro cyntaf. Defnyddiodd Christine eu phapur i adlewyrchu ar safle menywod o fewn y Cynulliad Cenedlaethol ers 1997. Dathliodd y cydbwysedd rhywaidd a chyflawnwyd yn y cynrychiolaeth o fewn y Cynulliad ac ystyriodd safle menywod yn etholiadau'r dyfodol.

O'r diwedd daeth y diwrnod tua'i terfyn gyda ychwanegiad Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol, i'r panel. Cyn myned i gyfweliad gyda Deian Hopkin, traddododd Yr Argwlydd Elis-Thomas papur a chyfieithwyd ar y pryd ar y pwnc 'Y Cynulliad Cenedlaethol: Y Deng Mlynedd Cyntaf a'r Deng Mlynedd Nesaf'. Yn ei araith siaradodd am ei lwybr personol i wleidyddiaeth, y ddau referendwm ar ddatganoli a'r posibiliadau ar gyfer y dyfodol. Yn y cyfweliad a ddilynodd gyda'r cadeirydd, ystyriodd Yr Arglwydd Elis-Thomas sut yr oedd wedi gweld Cymru'n tyfu o 'dalaith lleol' yn yr 1980au i fod yn genedl heddiw. Aeth y ddau ymlaen wedyn i drafod newidiadau sydd bosib yn wynebu Cymru wedi'r etholiad agos. Mewn gwirionedd daeth holl siaradwyr y ddiwrnod ynghlwm wrth i'r cyfweliad parhau i ystyried cyflwr datganoli a ddemocratiaeth yng Nghymru, ffordd mwy nag addas i gloi beth fu'n ddiwrnod gwych. Fel mesur o ba mor pryfoclyd bu'r diwrnod ac o'i llwyddiant, daethpwyd a diwedd i drafodaeth aelodau Llafur drwy cau'r Senedd am y noson yn unig!

NODIADAO O DYDDIADUR….

Joe England

Dydd Mercher, 30 Medi, 2009. Mae dylanwad Llafur yn syfrdanol. Dilynwyd crybwyll yn y Cylchlythyr diwethaf am y 'corrupt cocoon that is Westminster' yn sydyn gan manylion y drefn ddwys-ddiffygiol o lwfansau ASau a'i gamddefnydd. Awgrymiad y dylsai cynnwys *Black Parade* Jack Jones yn y gyfres Llyfrgell Cymru a presto! dyma fe'n ymddangos.

Dydd Sadwrn, 7 Tachwedd. Mae John Holroyd o Nottingham yn dod i fy nghyfweld ynglŷn ag addysg i oedolion yn Hong Kong yn ystod y chwedegau; a chyfraniad tiwtoriaid addysg i oedolion i'r astudiaeth academaidd o gysylltiadau diwydianol. Yn hwyrach, cofiaf roeddwn yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf yna rhwng Richard Hoggart a Raymond Williams yn Balliol. Ni fedraf cofio unrhyw beth amdano, ond bu'r llyfrau *The Uses of Literacy* (newydd ei ail-gyhoeddi) a *Culture and Society* yn newid byd i mi.

Dydd Gwener, 20 Tachwedd. Yn fynwent St. John-at-Hampstead. Mae Nick wedi dod a mi yma i weld beddau Hugh Gaitskell, John Constable a John Harrison, yr athrylyth hunan-addysgedig a ddyfeisiodd y cronomedr morol. 'Ie', mae'n dweud, 'Hampstead yw'r lle i gael eich claddu'. Mae Nick, a cynghorodd Margaret Thatcher pan oedd yn Prif Weinidog, yn ychwanegu fod yna si ymhlith meddygon efallai y byddai wedi bod modd i achub bywyd Gaitskell petai wedi cael ei weini gan meddyg llai clodwiw a mwy gyda'r oes.

Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr. Heddiw bu ymddeol Rhodri fel Prif Weinidog. Fel tiwtor-trefnydd ifanc Cymdeithas Addysg y Gweithwyr trefnodd gyfres o ddarlithoedd a arweiniodd at *Merthyr Politics*, llyfr ag ysbrydolodd nifer o ysgolheigion ifanc i astudio hanes llafur Cymraeg. Ynddo hawliodd Gwyn Thomas bod un o curadiaid Trollope yn llewygu wrth iddo glywed ei fod wedi ei benodi i Ferthur! Ond wnaeth Gwyn erioed dweud wrthym pa lyfr. Oedd hyn yn ddyfeisiad drygionus? Does bosib. Rhybudd i unrhyw un sydd ar ddechrau gwirio – rhwng 1847 ac 1879 cyhoeddodd Trollope 45 o lyfrau!

Dydd Sadwrn, 12 Rhagfyr. Neuadd y Dref, Castell-nedd. O ddiolch i Angela John rwy'n cyfarfod gydag un o fy arwyr, Elaine Morgan, sydd yma i siarad ar Russell Wallace a Darwin. Yn 89 mae ganddi ysgydwad llaw digryn a gwen sydd bron yn crechwen digywilydd. Ymchwilydd tra gofalus a ddadleuwraig brwysg, mae ei llyfr *The Aquatic Ape Hypothesis* yn arddangos y ddau ansawdd yma. 'I've been stuck on the lunatic fringe for years', mae'n dweud. I adleisio Ernie Bevin ond mewn gyd-destun dra-wahanol: 'Not while I'm alive she ain't'.

Dydd Mawrth, 2 Chwefror, 2010. Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthur. Pa ddyfodol i Gastell Cyfarthfa? Mae'n debyg bydd yr ysgol yn symud o fewn y blynyddoedd nesaf. Bydd yr Amugeddfa Genedlaethol yn ei gymryd drosodd fel ganolfan rhanbarthol? Bydd hi'n bosib ennill perswad ar yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gymryd diddordeb? Neu ydi hi'n anochel i droi'n y Gwesty Crawshay? Ysgwn i os oes barn gan aelodau Llafur.

Dydd Sadwrn, 7 Chwefror. Yr ymgiliad trist o Twickenham i Waterloo. Mae brodor huawdl o Lanllechid yn gofyn os wyf yn siarad Cymraeg. 'No'. 'That's disgusting'. Mewn ysbryd dadl dywedaf, 'Dafydd Elis Thomas said that everyone who chose to make their home in Wales is Welsh'. Nid yw'n edmygus o fy ryddfrydiaeth tuag at mewnfudwyr. Mae'n byw yn Harlow.

ADRAN LLYFRAU



Adolygiad: Robert Griffiths, *Killing No Murder: South Wales and the Great Railway Strike of 1911*, (Manifesto / RMT, 2009)

Bu'r 'Aflonyddwch Mawr' o 1910-1914 yn un o'r cyfnodau mwyaf aflonydd ac arwyddocaol yn hanes Prydeinig cyfoes, pan gymerwyd weithrediad streic gan glowyr, docwyr a gweithwyr rheilffordd oll a phan

ddangosodd y llywodraeth ei fod yn barod i fyddino milwyr yn eu herbyn. Roedd streic cenedlaethol y rheilffyrdd yn Awst 1911 yn bennod bwysig yn yr ymdrech yma. Ennyd mwyaf diarhebol yr anghydfod yma oedd pan daniodd milwyr ar y dorf yn Llanelli, gan ladd dau ddyn ifanc ac anafu dau arall – yr achos diwethaf o filwyr yn tanio ar sifiliaid ar dir mawr Prydain.

Wrth ganolbwyntio ar y digwyddiadau yn Llanelli yn Awst 1911, *Killing No Murder* yw'r cyfraniad diweddaraf i hanesyddieath y cyfnod hollbwysig yma yn hanes llafur. I raddau helaeth mae'n cyfieithad cyfrwng Saesneg o lyfr 1986 Griffiths ar y pwnc, *Streic! Streic! Streic!*, er mewn ffurf gwell a wedi ei ehangu. Cymerwyd teitl y llyfr o bamffled o'r un enw a ysgrifennwyd gan Keir Hardie toc wedi digwyddiadau 1911, yn condemnio'r dedfryd o 'justifiable homicide' a ddychwelwyd gan y cwest i saethiadau Llanelli.

Mae strwythr *Killing No Murder* yn syml amseryddol, yn symud o'r cyfnod yn rhagflaenu 1911, trwy diwyddiadau 19 Awst y flwyddyn yna a'u adladd. Fel mae'r is-deitl yn arwyddo, nod y llyfr yw i leoli'r saethiadau yn Llanelli o fewn cyd-destun bras y streic rheilffyrdd genedlaethol ac ymateb y wladwriaeth i'r argyfwng.

Mae'r penodau agoriadol yn darparu cefndir i ddigwyddiadau 1911. Mae'r pennod cyntaf yn crynhoi'r sefyllfa oedd yn wynebu gweithwyr rheilffordd yn negawd agoriadol yr ugeinfed ganrif. Dau nodwedd yma yw trafodaeth o'r cytundeb ym 1907 rhwng yr undebau a'r cwmniau rheilffrodd, pan fu Lloyd George yn cyfryngwr, ynghŷd a thrafodaeth o'i ran ef o fewn rhyddfrydiaeth Cymraeg a wleidyddiaeth Prydeinig mewn cyfanrwydd. Mae pennod dau, a enwir 'The Baptists' Jerusalem', yn darparu arolwg dros hanes ddinesig Llanelli, gan nodi canologrwydd tunplat i economi y dref a'i rhan ddilynol fel 'tinplate capital of Britain'.

Mae'r pump pennod canolog yn astudio streic y rheilffyrdd 1911 a'i adladd yn ne Cymru ac ymhellach. Mae pennod tri, 'The Great Strike', yn agor gyda disgrifiad o'r sefyllfa gysylltiadau diwydianol aflonydd yn ne Cymru ym 1910-11, cyn symud ymlaen i ddisgrifiad manwl o ddigwyddiadau streic gweithwyr rheilffordd 1911 o safbwynt lefel genedlaethol. Mae'r pennod nesaf, 'The Shooting', yn cyfeirio at ddigwyddiad canolog y llyfr: ymfyddiniad milwyr yn Llanelli er mwyn sicrhau parhâd gweithrediad y rheilffordd yna, ynghŷd a'r cyfwynebiad ganlynol gyda dorf leol gelyniaethus pan laddwyd dau ddyn ifanc gan y milwyr. Mae pennod pump yn delio gyda'r aflonyddwch a'r cynhyrfiad yn Llanelli wedi'r saethiadau, wrth i dorfeydd o derfysgwyr chwilio am ad-daledigaeth gan rheini credant yn gyfrifol. Mae pennod chwech yn trafod achos Harold Spiers, milwr a wrthododd tanio ar y dorf ac yn hytrach diffeithiodd. Mae'r seithfed pennod yn archwilio adladd yr holl ddigwyddiad yn Llanelli, yn enwedig dedfryd y cwest i'r saethiadau a'r condemniad gan Keir Hardie o ddedfryd y crwner fel 'justifiable homicide', wrth iddo ddweud yn hytrach '[t]he men who have been shot down have been murdered by the Government in the interests of the capitalist system'.

Mae'r pennod olaf, 'History as Class Struggle', yn ymgymryd gyda rai o'r cwestiynau bras a godwyd gan streic y rheilffyrdd Awst 1911. Yn gyntaf, efallai'n ddi-syndod gan un sy'n ysgrifennydd cyffredinol Blaid Comiwnyddol Prydain, mae Griffiths yn tynnu ar ysgrifau Marx, Engels a Lenin i esbonio rhan y rheilffyrdd o fewn cyfalafiaeth diwydianol datblygiedig. Yn ail, mae'n cymharu sylfaen dosbarth 'cenedlaetholdeb Cymraeg' Rhyddfrydol Lloyd George a'r weledigaeth cydraddol, gweriniaethol a bleidiwyd gan Hardie. I gloi, mae'n trafod arwyddocâd digwyddiadau Llanelli yn Awst 1911 ar gyfer hanes ddilynol de Cymru.

Adeiladwyd *Killing No Murder* ar ystod da o ddeunydd crai: o adroddiadau swyddogol a papurau'r Swyddfa Cartref, trwy amrywiaeth o adroddiadau papur newydd lleol a cenedlaethol, bywgraffiadau a llenyddiaeth eilradd. Yr effaith cyfunol o hyn yw i'r llyfr lwyddo i gyfuno manylion llygad-destun o'r digwyddiadau yn Llanelli gydag arolwg synoptig o leoliad y streic o fewn hanes Prydain yn yr ugeinfed ganrif cynnar.

Mae gan y lyfr ambell ffaeledd bychan. Mae yna sawl gwall teipograffyddol, sy'n tynnu wrtho rywfaint. Hefyd, cyfeiriwyd dwywaith at Ramsay MacDonald fel AS dros Aberafan yn ystod digwyddiadau 1911, er ni etholwyd i'r swydd yna tan 1922. Serch y rhain, ar y cyfan mae *Killing No Murder* yn cyfraniad gwerth chweil ar bwnc pwysig iawn.

Os hoffech gyfrannu adolygiad o lyfr neu erthygl i'r cylchlythyr cysylltwch gyda Stephanie Ward (wardsj2@cardiff.ac.uk).

Mae pob barn o fewn y cylchlythyr yn rhai cyfranwyr uniogol ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu trem neu barn Llafur.

Calendr Digwyddiad

19 Mehefin	**Diwgyddiad Ieuan Gwynedd Jones – Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth**
26 Mehefin	**Cold War Wales – Prifysgol Morgannwg**
3 Gorffennaf	**Mudiad Cydweithredol Cymru – Neuadd Glowyr Cwmdâr**
11 Medi	**Sosialyddion Cymraeg eu Hiaith – Prifysgol Bangor**
18 Medi	**Gwyn Alf Williams – Caerdydd**
30 Hydref	**Terfysg Tonypandy – Coleg Morgannwg**